

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 7fed 2016 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gethin Morris, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo Evans, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Gwenda Evans a Tina Davies.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

a) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Asedau'r Cyngor.

Roedd y cynghorwyr wedi archwilio'r llochesi bws yn Llanfor, Sarnau a Chefnddwysarn ac roeddynt mewn cyflwr da.

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

a) Bin sbwriel cyhoeddus ym mhentref Sarnau - roedd y swyddog wedi cyfarfod gyda'r Cyng. Gary Thomas ar y safle ac wedi trafod amryw o syniadau ar sut y gellir gwella'r gwasanaeth casglu sbwriel e.e. drwy symud y bin yn agosach i'r anheddau penodol, cyflenwi bocsys ailgylchu ayyb. Cytunodd y swyddog gysylltu yn nol gyda'r Cyngor unwaith fydd wedi penderfynu ar y ffordd orau i ddatrys y broblem.

b) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn

i) Cytundeb Cynnal Llwybrau - roedd y Bartneriaeth wedi derbyn cadarnhad bod Cyngor Gwynedd yn gorfod pasio'r toriadau yn eu cyllideb cynnal llwybrau cyhoeddus ymlaen iddynt. Roedd y Bartneriaeth wedi trafod gyda'u contractiwr ac roedd yn bosib gwneud arbedion wrth beidio torri rhai llwybrau o gwbl a lleihau'r nifer o weithiau'r torri'r llwybrau eraill.

b) Cyngor Gwynedd

i) Newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus - fel y trafodwyd yn gynharach derbyniwyd gwybodaeth am y toriadau a oedd yn wynebu'r adran.

ii) Ardaloedd Cymunedol Gwynedd - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n gyfrifol am weithredu 'Deddf Llesiant Cenedlaethol Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015)' ac mae angen i Gyngor Gwynedd argymhell yr union ardaloedd i'w hargymhell i'r Bwrdd. Derbyniwyd gwybodaeth a chyfle i gynnig sylwadau ar y cymunedau is-sirol posib. Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r ffordd yr oedd y sir wedi cael ei rannu ond roedd anfodlonrwydd bod ardal Penllyn wedi cael eu labelu yn Bala (Bala, Llanuwchllyn). Gofynnwyd i'r cler anfon yn nol yn gofyn iddynt gywiro'r.

iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Mehefin.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Gwahoddiad i'r cyfarfod rhwng y Parc a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

ii) Copi o'i rhaglen cyfarfodydd ar gyfer 2016-17.

ch) Amrywiol

i) Pwyllgor Coffau Canmlwyddiant: Frongoch, 1916-2016 - Gwybodaeth am y diwrnod arbennig o gofio yn Fron-goch, Mehefin 11eg.

ii) Caeau Canmlwyddiant – Gwybodaeth am eu cynllun Caeau Canmlwyddiant.

iii) GCGIC – Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol.

iv) Ffrindiau Neuadd Buddug – Gwahoddiad i'r agoriad swyddogol, 27/5/16.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C16/0562/04/TR – Cais ol-weithredol i gadw dau gyflenwad trydan dan ddaear. Tir ar Refail Isaf, Llanfor.

C16/0428/04/LL - Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn uned wyliau hunan cynhaliol. Penucha'r Llan, Llanfor.

NP5/63/235B – Cais i ddiwygio amod o ganiatad cynllunio. Gorsaf Fedryddio Cynefail, Capel Celyn.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/AD273 – Arddangos un panel gwybodaeth wedi ei osod ar garreg plinth. Cilfan oddi ar A4212, Frongoch.

d) Materion Ariannol.

i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilydd mewnol.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Rhent cae chwarae Frongoch i Gyngor Gwynedd.

dd)Unrhyw Fater Arall.

Goryrru heibio Capel a Neuadd Cwmtirmynach.

Derbyniwyd cwynion am gyflymder y cerbydau a oedd yn gyrru heibio ac roedd pryder am ddiogelwch y cyhoedd a oedd yn defnyddio'r neuadd a'r capel. Gofynnwyd i'r clerc basio'r pryderon ymlaen i'r adran briffyrdd yn Nolgellau gan ofyn am arwyddion ychwanegol i'r safle.

Safle Bws Cefnddwysarn.

Gofynnwyd i'r clerc ofyn i Gyngor Gwynedd dacluso'r llwybr ger y lloches gan fod y mwsogl a'r chwyn yn ei wneud yn llithrig. Gofynnwyd i'r clerc eu holi hefyd ynglŷn â'r difrod i'r rheiliau ger y lloches.

Canolfan Dwr Gwyn Tryweryn.

Roedd nifer o ymwelwyr yn cael trafferth dod o hyd i'r ganolfan gan fod eu sat-nav's yn eu hanfon i mewn i stad Glan Tryweryn ac yn creu trafferth i'r trigolion lleol. Gofynnwyd i'r clerc anfon at y Ganolfan i ofyn a oedd posib gosod arwyddion ychwanegol yn cyfeirio'r ymwelwyr i'r cyfeiriad cywir a hefyd i roi cyfarwyddiadau cliriach ar eu gwefan a thafleuni gwybodaeth.